
BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU 21.6.19

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig L.Siencyn (Cyngor Gwynedd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Yr Athro Graham Upton (Prifysgol Bangor), Steve Jackson (Coleg Cambria), Ashley Rogers (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy) ac Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes).

Swyddogion yn bresennol - Iwan Evans (Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) ac Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol).

1. ETHOL CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2019/20.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) yn Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2019/20.

3. YMDDIHEURIADAU

Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Sasha Davies (Bwrdd Cyflawni Busnes), Dafydd Edwards (Cyngor Gwynedd) a David Jones (Coleg Cambria).

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Mai, 2019 fel rhai cywir.

7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r

paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n gorbwyso hawliau'r unigolion yma. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

8. PENODI CYFARWYDDWR RHAGLEN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol y Corff Atebol.

PENDERFYNWYD i gynnig y swydd i Mr Iwan Trefor Jones, gan awdurdodi Prif Weithredwr y Corff Atebol, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd i gadarnhau yr amodau a'r telerau yn unol â chyfarwyddyd y Cyd-bwyllgor.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Gweithredu i benodi Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer y Cynllun Twf.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 5.30yp.